Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Arloesi

# Qioptiq Ltd

## Mae Qioptiq Ltd yn cyflogi dros 500 yng ngogledd Cymru ar ddau safle yn Llanelwy a Bodelwyddan.



Mae Qioptiq Ltd yn arbenigo mewn cynllunio a chynhyrchu cynnyrch optegol a ffotoneg


Mae'n rhan o'r Grŵp Excelitas o'r Unol Daleithiau sy'n gweithredu drwy gydol Ewrop, Asia a'r UDA. Mae'r cwmni'n arbenigo mewn cynllunio a marchnata cynnyrch a datrysiadau optegol a photonig sy'n gwasanaethu ystod eang o farchnadoedd a chymwyseddau. Mae'n gyflenwr gris uchaf i lawer o brif gwmnïau'r sector amddiffyn ac awyrofod. Ymysg yr ystod cynnyrch mae rhai o'r technolegau opteg mwyaf blaengar, o Night Vision Sights i Head Up Display a chydrannau ar gyfer y Gofod. Mae Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth ddiweddar wedi helpu'r cwmni i ymestyn a thyfu'i gweithrediadau yng ngogledd Cymru.

Yn 2016, dechreuodd Qioptiq Ltd ar KTP ddwy flynedd o hyd gydag Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd, i'w helpu i leihau costau gweithredu a gwneud yn fawr o lefelau stoc ar gyfer cytundebau gwasanaethu drwy gyfrwng cadwyn gyflenwi fwy main a rhagweld anghenion cyflenwi stocresi.

Fe wnaeth y bartneriaeth alluogi i Gydymaith mewn gweithrediadau busnes rhagweld anghenion cyflenwi stocresi i

### Deilliannau Allweddol:

- 7 swydd newydd yng ngogledd Cymru - yn unol ag uchelgais Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i greu Cymru fwy ffyniannus.
- Potensial ar gyfer lleihad sylweddol yn stocresi cadwyn gyflenwi'r cwmni – mae gan gydweithio â phrifysgolion rôl bwysig wrth yrru ffyniant a thwf.



weithio'n uniongyrchol gyda'r cwmni o dan arweiniad Athrawon o Ysgol Fusnes Caerdydd.

Cafodd y cyfan ei gyd-ariannu gan Lywodraeth Cymru, Y Cyngor Ymchwil Peirianneg a Gwyddorau Ffisegol, ac Innovate UK. Roedd yn ganlyniad i brosiect rhwng Qioptiq Ltd a Phrifysgol Caerdydd a gynhaliwyd fel rhan o raglen Advanced Sustainable Manufacturing Technologies (ASTUTE) rhwng 2010 a 2015.

"Mae'r KTP gyda Chaerdydd wedi bod yn llwyddiant ysgubol i ni. Rydym ni wedi cael mynediad i arbenigedd academaidd o'r radd flaenaf, ac wedi datblygu perthynas weithio gref gyda'r Brifysgol. Ymysg deilliannau allweddol bu creu potensial ar gyfer cadwyn gyflenwi stocres sy'n fwy main a chost-effeithiol; cyfleuster cynhyrchu newydd a adeiladwyd yn bwrpasol a chytundeb mawr gyda Gweinyddiaeth Amddiffyn y DU i wasanaethu a chynnal offer hanfodol sy'n angenrheidiol ar gyfer gwarchod ein milwyr ar reng flaen gweithredu. Mae'r gefnogaeth a gawsom gan Innovate UK, Llywodraeth Cymru a phartneriaid prosiect cysylltiol, ynghyd â gallu ac ymrwymiad ein gweithlu, wedi bod yn bwysig bob un i'n llwyddiant."

**Peter White, Rheolwr Gyfarwyddwr, Qioptiq Ltd**

## Y Cydymaith

Thanos Goltsos oedd y Cydymaith KTP a ddarparwyd gan Ysgol Fusnes Caerdydd i weithio ar y cyd â'r cwmni. Gan weithio gyda chefnogaeth academyddion ag enw da rhyngwladol, dangosodd i'r cwmni sut y gallai leihau'i stocres o hyd at 25%. Darparodd wasanaeth rhagweld cyflenwi stocres selog ar gyfer gwerthiant a dychweliadau er mwyn cefnogi model economi gylchynol 'gwasanaeth ac ailweithgynhyrchu' y cwmni. Meddai ef:

### Deilliannau Allweddol:

- Ennill cytundeb chwe blynedd werth £82m i wasanaethu offer gweld yn y nos ar gyfer y Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD) – gan fachu ar y gefnogaeth sydd ar gael i fwydo i mewn i'r potensial enfawr ar gyfer masnach yn y DU ac yn rhyngwladol.
- Buddsoddiad o £2.5m gan Lywodraeth Cymru mewn cyfleuster cynhyrchu newydd a adeiladwyd yn bwrpasol er mwyn i'r cwmni gyflawni gofynion cytundeb yr MoD - gan gefnogi rhagor o fusnesau Cymru i arloesi er mwyn llwyddo.

"Roedd y prosiect hwn yn gyfle gwych i mi roi fy arbenigedd rheoli gweithredol ar waith o dan oruchwyliaeth dau academydd profiadol dros ben. Mae wedi bod yn daith heriol ond pleserus gyda chanlyniadau anhygoel sydd wedi peri fod yr holl waith caled wedi bod yn werth chweil."

**Thanos Golstos, Cydymaith KTP**

## Y Partner Academaidd

Goruchwyliwyd gwaith y Cydymaith gan ddau academydd o Ysgol Fusnes Caerdydd: Aris Syntetos, Athro Ymchwil Ymchwil Gweithredol a Rheoli Gweithrediadau, a Mohamed Naim, y Dirprwy Ddeon. Mae'r ddau'n arbenigo mewn datblygu systemau busnes a dyfeisio dulliau newydd a dyfeisgar er mwyn darparu cadwyni cyflenwi mwy cynaliadwy a gwydn, a systemau main a hyblyg.

"Mae'r KTP wedi ein galluogi i ddangos yr effaith enfawr y gall ymchwil, a gynhaliwyd yn Ysgol Fusnes Caerdydd ym maes rheoli stocres ac optimeiddio, ei gael ar fusnes masnachol, yn ogystal â'r effaith ganlynol i fanteision economaidd mewn rhanbarth lleol."

**Yr Athro Aris Syntetos, Ysgol Fusnes Caerdydd**

### Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth

Mae Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth (Knowledge Transfer Partnerships (KTPs)) wedi bod yn digwydd ers dros 40 mlynedd ac maen nhw'n ffordd eithriadol o effeithiol o gyflawni a gwreiddio arloesi neu newidiadau cynhyrchiant mewn busnes drwy gydweithio rhwng diwydiant a Phrifysgolion. Rhedir KTPs mewn partneriaeth â Phrifysgolion sy'n recriwtio graddedigion o safon uchel (sef y Cydymaith) i weithio ar y prosiectau.

Bydd llawer o'r Cymdeithion hyn y cael eu cadw fel arweinwyr a rheolwyr gan y busnes sy'n cymryd rhan yn y prosiect, a thrwy wneud hyn maen nhw'n helpu i gryfhau proffil, enw da a dylanwad Cymru ledled y byd. Yng Nghymru arweinir Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth gan Innovate UK a Llywodraeth Cymru er mwyn adeiladu seiliau cryfach ar gyfer arloesi ac i ddarparu llewyrch i bawb – yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

**I gael rhagor o wybodaeth am KTP ewch i ktp.innovateuk.org**

Busnes Cymru | Business Wales

Ffyniant i bawb: cynllun gweithredu economaidd yw strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru. Dysgwch ragor am y cyllid a'r gefnogaeth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru:

03000 6 03000 | innovation@llyw.cymru
businesswales.gov.wales/innovation/cy

Undeb Ewropeaidd
European Union
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop**
**European Regional Development Fund**

WG34230 / © Hawlfraint y Goron 2018 OGL